



helplu
helpforce

Gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG: edrych ymlaen yn sgil Covid-19

15 MEDI 2020

Cyd-destun

Ym mis Medi, hwylusodd CGGC fforwm trafod ar-lein er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau'r GIG a'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ran yr ymateb gwirfoddoli a welwyd mewn perthynas â phandemig Covid-19. Bydd yr adroddiad hwn yn ceisio crynhoi'r prif themâu a phrofiadau, gyda'r nod o ddatblygu dysgu er mwyn cynnal yr ymateb a sicrhau bod y GIG a rhanddeiliaid y sector gwirfoddol yn barod am donnou pellach posibl o Covid-19.

Roedd y fforwm trafod am ddim i'w fynychu a chafodd ei hyrwyddo'n eang ar draws rhwydweithiau CGGC. Daeth bron 60 o gyfranogwyr i'r sesiwn.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar bedwar cwestiwn allweddol y gofynnwyd i gyfranogwyr eu hystyried pan wnaethant gofrestru; defnyddiwyd y cwestiynau wedyn fel sail i'r drafodaeth.

- O'ch profiad/safbwynt o wirfoddoli o ran Covid 19, beth oedd o gymorth i gefnogi ymateb y GIG?

- Beth oedd ddim yn ddefnyddiol neu beth oedd yn heriol?
- Beth yw etifeddiaeth wirfoddoli Covid 19; pa wersi/gwahanol ffyrdd o weithio ydyn ni eisiau eu cadw?
- Beth, yn eich barn chi, yw'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu cyfraniad ac effaith wirfoddoli ar ein gwasanaethau iechyd yn y dyfodol?

Mae Richard Newton Consulting wedi paratoi adroddiad cryno ar gyfer y sesiwn. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu'n eang ymysg y sector a chyda phobl eraill, fel cyllidwyr a llunwyr polisi.

Mae'r adroddiad yn ceisio sefydlu themâu a chymau gweithredu yn hytrach na llunio crynodeb o'r hyn a ddywedwyd. Mae'n adlewyrchu'r ymatebion i'r arolwg a'r cyfraniadau yn ystod y digwyddiadau, yn hytrach na safbwyntiau CGGC neu Richard Newton. Ni allwn gadarnhau a ydynt yn gwbl gywir neu ai safbwyntiau pobl yn unig ydynt.

Gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG: edrych ymlaen yn sgil Covid 19

CYFLWYNIAD

Teimlwyd y gellid dysgu llawer o'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020 o ran y potensial, a'r heriau cysylltiedig, o alluogi gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn effeithiol. Roedd CGGC wedi cadw mewn cysylltiad â thimau gwirfoddoli ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru ac wedi darganfod dulliau gweithredu amrywiol mewn perthynas â gwirfoddoli. Gwelwyd enghreifftiau gwych o wirfoddolwyr yn gwneud cyfraniadau arbennig a oedd yn wahanol i'r rheini a wnaed gan y gweithle, ynghyd ag esiamplau o weithio mewn partneriaeth i helpu i baratoi gwirfoddolwyr. Cafodd llawer o'r mentrau hyn eu rhoi ar waith yn gyflym, a bu pryderon cysylltiedig o ran risg, llywodraethu, sut i symleiddio prosesau a sut i reoli disgwyliadau staff a gwirfoddolwyr.

Er ein bod yn cydnabod fod rhwydwaith gweithredol o reolwyr gwirfoddolwyr yn y GIG, mae llawer o'r themâu i'w hystyried yn ymestyn yn ehangach na'r grŵp hwn, a dyma pam y sefydlwyd y fforwm trafod hwn. Yn ogystal, mae angen edrych ar statws gwirfoddoli o fewn y GIG. Cyn Covid-19, proffil isel oedd gan wirfoddoli heb lawer o adroddiadau yn ei gylch. Daeth gwirfoddoli'n flaenoriaeth strategol yn gyflym yn ystod pandemig Covid-19; ond gan fod hyn wedi digwydd mor gyflym, cafodd y gwaith o ddatblygu systemau adrodd ac ati ei adael ar ôl.

ASTUDIAETHAU ACHOS

Ceisiodd tair astudiaeth achos o wahanol rannau o Gymru amlygu profiadau'n uniongyrchol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gydag Awyr Las (elusen GIG yr ardal – mae'n werth nodi bod nifer o elusennau GIG yng Nghymru, a phob un ohonynt wedi'u halinio â Bwrdd Iechyd, ac yn amrywio cryn dipyn mewn maint.

Roedd rhaglen wirfoddoli eisoes ar waith, sef 'Y Robin'. Fel arfer (cyn Covid-19), byddai gwirfoddolwyr 'Robin' yn gwirfoddoli ar wardiau (yn llenwi jygiau dŵr, cynnig cynllun cyfeillio i gleifion). Cafodd hyn ei effeithio fel rhan o'r ymateb i Covid-19, oherwydd roedd llawer o'r gwirfoddolwyr sefydledig wedi'u cynnwys yn y grŵp gwarchod, felly ni allent ymhél ag unrhyw weithgaredd a ddarparwyd y tu allan i'w cartrefi, ynghyd â chyfyngiadau o ran gallu i ymgysylltu â safleoedd y GIG. Defnyddiwyd model 'Y Robin' i recriwtio gwirfoddolwyr newydd mewn ymateb i Covid-19. Rhagwelwyd y byddai angen llawer o'r rolau hyn ar gyfer yr ysbytai maes a chynlluniau ehangach i'r gweithlu. Gwnaeth dros 700 o bobl wirfoddoli a chawsant eu clirio i weithio mewn rolau fel cyfeillio, cymhennu, gweithio ar y dderbynfa, rheoli stoc a chludo cyfarpar diogelu personol (PPE) a meddyginiaeth. Ni ddefnyddiwyd yr holl wirfoddolwyr gan na fu'n rhaid gweithredu'r ysbytai maes ar y raddfa yr ofnwyd.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhennu'r gronfa ddata ac yn creu tri llwybr gwirfoddoli ar gyfer y dyfodol –

- i. Y Robiniaid – yr hen rôl wirfoddoli wreiddiol
- ii. Tîm ymateb yn barod ar gyfer tonnau yn y dyfodol
- iii. Llwybr gwirfoddoli i gefnogi datblygiad i mewn i gyflogaeth / banc

Mae tua 250 o'r gwirfoddolwyr newydd yma o hyd, yn ogystal â'r 'Robiniaid' sefydledig sy'n dechrau dychwelyd wrth i'r cyfnodau gwarchod ddod i ben.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Sefydlwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyflym pan ddechreuodd y pandemig, a bu Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys yn helpu i recriwtio gwirfoddolwyr. Cafodd yn agos at 500 o wirfoddolwyr eu recriwtio i rolau a oedd yn ymestyn y tu hwnt i ysbytai,

gan gynnwys gofal preswyl, gofal cartref a gyrwyr. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i lawer o'r rolau gwirfoddoli sefydledig am y tro yn sgil Covid-19, ynghyd â'r gallu i fynd i mewn i safleoedd. Disodlwyd y rhain gan set newydd o rolau, er enghraifft, gwasanaethau cyfeillio a chyfeillion technoleg.

Datblygwyd sesiwn sefydlu safonol ar gyfer pob gwirfoddolwr, gyda chyllid gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd hon yn mabwysiadu Egwyddorion Siarter CGGC/TUC Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ar y dechrau, gofynnodd Caerdydd i wirfoddolwyr roi'r gorau i'w gwaith am y tro, gan eu cyfeirio at gyfleoedd lleol. Fel ardaloedd eraill, cafodd y garfan o wirfoddolwyr sefydliedig ei heffeithio gan effaith y mesurau gwarchod.

Pan ailddechreuwyd y gwirfoddoli, roedd llawer ohono'n canolbwyntio ar rolau a oedd yn ymwneud â chleifion, fel dosbarthu llechi digidol, rolau ymweld rhithwir a chymorth i gleifion. Cafodd llawer o'r rolau eu gwneud gan fyfyrwyr ar lwybrau gyrfa. Dengys y cofnodion bod 40 o fyfyrwyr wedi gwneud 5400 o oriau gwirfoddoli dros chwe mis.

Yn ogystal, derbyniodd y Ganolfan Reoli geisiadau am yrwyr a phobl i gymhennu a chafodd nifer fawr iawn o bobl eu recriwtio. Yn wahanol i ardaloedd eraill, St John's Cymru oedd yn rheoli'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr i'r ysbytai maes.

Mae rhai o'r datblygiadau yn y maes gwirfoddoli fel rhan o'r ymateb i Covid-19 wedi'u prif ffrydio bellach. Mae hyn yn cynnwys elfennau sefydlu ac ymweliadau rhithwir.

GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli'n ymwneud â llawer o bethau:

- Adeiladau capasiti Bwrdd Iechyd
- Gwella profiad cleifion
- Datblygu llwybrau gyrfa

Mae'r astudiaethau achos yn cefnogi llawer o'r prif themâu a ddaeth allan o'r arolwg cyn y digwyddiad.

- **Roedd mynd ati mewn modd cyson a chydlynol yn werthfawr tu hwnt.** Roedd y GIG yn wynebu pwysau aruthrol yn ystod ton gyntaf y pandemig, a lle y mabwysiadwyd dull cydlynol a chyson o wirfoddoli (a'i drosglwyddo ar draws y bwrdd iechyd), gwelwyd buddion o ran cefnogaeth/dealltwriaeth o fewn y bwrdd iechyd ac ymhlith y gwirfoddolwyr (posibl). Mae adborth eglur nad oedd y gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddiwyd ledled y gwledydd cartref yn ddefnyddiol o ran rheoli disgwyliadau – yn enwedig yr alwad i wirfoddoli, a leisiwyd yn gynnwys iawn yn y broses cyn i'r rolau gael eu cadarnhau.
- **Roedd llawer yn cydnabod bod y bartneriaeth a'r cydweithio'n bethau positif. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), gwefan Gwirfoddoli Cymru, rhaglenni gwirfoddoli ac iechyd a grwpiau lleol yn y sector gwirfoddol.** Bu'r gweithio mewn partneriaeth o fudd i adeiladu'r capasiti i gydlynu ymateb gwirfoddolwyr. Mae tystiolaeth eglur hefyd fod y rheini na chafodd yr adnoddau priodol yn teimlo wedi'u llethu gan faint yr ymateb gan wirfoddolwyr.
- Credwyd fod hyblygrwydd gwirfoddolwyr yn rhywbeth positif, ond cydnabu nad oedd y cyflenwad o wirfoddolwyr (sgiliau, lleoliad) a'r galw am wirfoddolwyr (swyddi gwag gwirioneddol i wirfoddolwyr) yn cyd-fynd â'i gilydd yn aml.

Datblygodd y drafodaeth i edrych ar y galluogwyr allweddol i gynorthwyo gwirfoddolwyr a oedd yn gyffredin ar draws profiadau pawb

- **Capasiti** - roedd hwn yn gymysgedd o ddarparu cymorth priodol a hefyd sicrhau bod dealltwriaeth ar draws y bwrdd iechyd o'r rolau y gallai gwirfoddolwyr eu gwneud. Nodwyd fod timau staff wedi lleihau oherwydd y mesurau gwarchod, ac er bod y rheini a oedd yn gweithio yn gweithio'n eithriadol o galed, mae'n hanfodol bod capasiti i gynorthwyo gwirfoddolwyr.

- **Prosesau cyson a datblygedig - mae angen prosesau cadarn a phriodol ar gyfer recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr, ac roedd angen i'r rhain gael eu rhoi ar lwybr carlam pan oedd angen.**

Roedd rhai timau gweithlu o fewn y Byrddau Iechyd yn awyddus i fonitro ymgysylltiad gwirfoddolwyr yn nhermau swyddi cyfwerth ag amser llawn. Roedd gan Gaerdydd a'r Fro, er enghraifft, ddata clir fod gwirfoddolwyr wedi cyfrannu cyfwerth ag 144 o rolau amser llawn drwy wirfoddoli. Fodd bynnag, nododd Betsi Cadwaladr gryfder mesur y gwerth ychwanegol yr oedd gwirfoddolwyr wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd gan wirfoddolwyr brofiadau byw, er enghraifft, yn gweithio gyda chleifion iechyd meddwl. Gwnaeth mesur gwirfoddoli yn nhermau swyddi cyfwerth ag amser llawn beri peth gofid o ran cadw'r gwahaniaeth rhwng rolau staff a gwirfoddolwyr a chadw at gytundebau undebau llafur.

Gyda'r angen i gynnig cymorth rhithiol/o bell hyd yn oed mewn rolau sensitif iawn fel gofal diwedd oes, roedd gwirfoddoli a oedd yn gorfod cael ei ddarparu'n rhithiol yn gofyn am gryn dipyn o ailfodelu ac adnoddau (e.e. hyfforddiant, mynediad at ddyfeisiau digidol). Roedd defnyddio technoleg yn newydd i lawer, ac roedd angen cymorth ar lawer o ddefnyddwyr (a gwirfoddolwyr) yn y maes hwn. Gan hynny, roedd gwirfoddolwyr yn cyfrannu at brofiad cleifion, nid yn unig drwy'r llesiant a oedd yn cael ei ddarparu, ond hefyd drwy ddatblygu sgiliau defnyddwyr i ymhel mewn technoleg ddigidol a oedd yn cyflwyno budd ehangach o ran cysylltu'r claf â theulu a gwasanaethau cynghori/eirioli.

Roedd cysylltiadau â'r CVCs a'r Canolfannau Gwirfoddoli yn bwysig iawn lle roedd y rhain wedi'u datblygu. Roedden nhw'n gallu bod yn bwynt ymholi cyntaf i lawer, gan dynnu'r pwysau oddi ar y Byrddau Iechyd o orfod ymdrin â'r ymholiadau hyn a'u 'cadw'n gynnes' (roedd hyn yn hanfodol oherwydd y swm o wirfoddolwyr a'r alwad gynnar am wirfoddolwyr). Teimlwyd fod yr alwad genedlaethol am wirfoddolwyr wedi mynd allan yn rhy gynnar, oherwydd nid oedd Byrddau Iechyd yn gwybod eto beth oedd eu gofynion gwirfoddoli. Yng Nghymru, roedd mwy fyth o ddryswch gan fod y prif lwybr cenedlaethol cytunedig ar

gyfer recriwtio gwirfoddolwyr (drwy wefan Gwirfoddoli Cymru) yn wahanol i'r un yn Lloegr, a oedd yn derbyn cefnogaeth sylweddol yn y cyfryngau.

Roedd cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru yn y fforwm trafod, ac amlygodd eu bod yn sylweddoli bod cymysgedd enfawr o feysydd i'w hystyried. Wedi dweud hynny, teimlwyd fod y datrysiadau i gyd yn yr ystafell, ond bod angen eu gweithio allan yn llawn mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.

NEGSEUON ALLWEDDOL

Amlygodd y fforwm trafod hwn nifer o negeseuon allweddol oedd angen eu hystyried wrth symud ymlaen.

Mae'r ffordd y caiff gwirfoddoli ei gynllunio a'i gefnogi yn y GIG yn bwysig iawn. Mae hyn yn cynnwys sefydlu proffil a phwysigrwydd gwirfoddoli a'r gwerth ychwanegol y mae'n ei gynnig i'r bwrdd iechyd.

- Sut mae effaith yn cael ei mesur a sut caiff cysondeb ei sicrhau ledled Cymru?
- Pa gymorth sydd angen i CVCs ei roi i fyrddau iechyd a phlatfformau gwirfoddoli cenedlaethol fel Gwirfoddoli Cymru?

Dyluniad rolau gwirfoddoli - mae ystod o rolau gwirfoddoli ar draws y GIG. Mae rhai'n rolau sylweddol ac eraill yn gysylltiedig â chynlluniau wrth gefn yn ystod cyfnodau eraill o argyfwng. Bydd datblygu a chytuno ar rolau (gyda disgrifiadau rôl a sgiliau) yn helpu i atgyfnerthu safle gwirfoddoli yn y GIG ac yn galluogi gwirfoddolwyr i gael eu defnyddio'n gyflym pan fydd ymchwydd mewn galw yn y dyfodol. Mae angen cynnwys rôl dechnoleg yn y cynllun hwn, ochr yn ochr â'r gallu i rolau gael eu cyflenwi o fewn ystâd y GIG ac o bell. Mae angen ystyried nodweddion darpar wirfoddolwyr, gan gydnabod bod gan lawer o wirfoddolwyr sydd wedi bod yno ers tro ofynion gwarchod/ynysu ac na fydd llawer o'r gwirfoddolwyr ychwanegol sy'n cael eu recriwtio fel rhan o'r ymateb i Covid yn gallu ymrwymo i'r gwaith yn yr hirdymor wrth i fentrau fel y ffyrlo ddod i ben.

Mae angen adnoddau ar wirfoddolwyr - nid yw gwirfoddoli'n cael ei gynnig am ddim. Mae angen i reolwyr gefnogi hyn, gan ddeall y cynigir yr elw ar fuddsoddiad ar ffurf gwerth ychwanegol, a thanategu hyn ag adnoddau (staff, datblygu sesiynau sefydlu/hyfforddiant) gan y bwrdd iechyd neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn y pen draw, fodd bynnag, mae ymdeimlad cryf fod yr amgylchedd yn iawn ar gyfer newid safle gwirfoddoli'n gadarnhaol o fewn y GIG ac y dylai partïon weithio gyda'i gilydd i gyflawni hyn.